Ynni Lleol | Local Energy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Modiwl Cynllunio

## Strwythur y Pecyn Cymorth

Bwriedir i Becyn Cymorth Ynni Lleol gael ei ddefnyddio fel ffynhonnell gyfeirio gan Grwpiau Cymunedol o bob math. Mae'r modiwl hwn yn un rhan o gyfres o ddogfennau sy'n ffurfio Pecyn Cymorth Ynni Lleol a bwriedir iddo gwmpasu prosiectau o bob maint, er y gall graddau a chymhlethdod prosiectau aml-MW ofyn am waith gwerthuso manylach na phrosiectau llai. Ymhlith y modiwlau eraill a all fod o ddiddordeb arbennig i'r rheini sy'n darllen y modiwl hwn mae'r canlynol:

- Sefydlu grŵp cymunedol
- Cyllid prosiect
- Diogelu'r safle
- Cysylltu â'r grid
- Y Tariff Cyflenwi Trydan

Mae'r pecyn cymorth hwn yn adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd ar gyfer Cynllun Ynni Adnewyddadwy a Chymunedol Llywodraeth yr Alban (CARES) gan Local Energy Scotland a Ricardo-AEA.

## Strwythur y modiwl

Mae'r modiwl hwn wedi'i strwythuro'n bedair rhan gan weithredu fel canllaw a dogfen gyfeirio i Grwpiau Cymunedol wrth ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru:

**Y system gynllunio**
Y system gynllunio ac ynni adnewyddadwy
Datblygu a ganiateir

**Rôl awdurdodau cynllunio lleol**
Cyflwyniad i awdurdodau cynllunio a'u cyfrifoldebau.

**Cais cynllunio**
Golwg fanylach ar y cais a'r broses gynllunio, yn cynnwys sut a phryd i gysylltu â'ch awdurdod cynllunio lleol

**Rhagor o wybodaeth**
Dolenni, diffiniadau a chyfeiriadau priodol at wybodaeth arall, wedi'u dwyn ynghyd er hwylustod.

## Y system gynllunio

Mae'r system cynllunio gwlad a thref yn rhoi gofyniad cyfreithiol ar ddatblygwyr i gael caniatâd ar gyfer datblygu neu ddefnyddio tir. Mae'n ffordd i awdurdodau cynllunio reoli datblygiad anaddas drwy wrthod caniatâd neu drwy roi caniatâd ar gyfer datblygiad priodol (yn amodol ar amodau fel arfer). Mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi cyngor i gymeradwyo datblygiadau sy'n cyd-fynd â'u dyheadau lleol a gwrthod datblygiadau nad ydynt yn gwneud hynny.

Yng Nghymru, caiff y system gynllunio ei gweithredu gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau cynllunio lleol.

- Mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y system gynllunio ac yn llunio polisi cynllunio i Gymru.
- Mae awdurdodau cynllunio lleol yn gyfrifol am baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer eu hardaloedd. Mae CDLlau eisoes wedi cael eu cyhoeddi neu wrthi'n cael eu cyhoeddi gan awdurdodau cynllunio lleol ac yn sefydlu'r polisïau cynllunio defnydd tir manwl ar gyfer pob cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol a phob Parc Cenedlaethol.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd tir. Caiff y polisi cyffredinol ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs). Mae 'Cynllun Gofodol Cymru - Pobl, Lleoedd, Dyfodol' (a ddiweddarwyd yn 2008) yn nodi fframwaith strategol er mwyn llywio datblygiad cynaliadwy ac ymyriadau polisi ar gyfer y dyfodol.

Mae'n rhaid i'r polisïau ym Mholisi Cynllunio Cymru, y TANs a Chynllun Gofodol Cymru gael eu hystyried gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

### Y system gynllunio ac ynni adnewyddadwy

Disgwylir i'r rhan fwyaf o ddatblygiadau cymunedol, os nad pob un ohonynt, gael eu cynnwys o fewn y categori datblygu lleol ac felly awdurdodau cynllunio lleol fydd yn penderfynu arnynt - yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'n bwysig i grwpiau cymunedol nodi eu hawdurdod cynllunio lleol a sefydlu deialog ag ef cyn gynted â phosibl wrth ddatblygu'r polisi. Caiff ceisiadau ar gyfer datblygiadau gyda chapasiti wedi'i osod o fwy na 50MW yng Nghymru eu penderfynu gan Lywodraeth y DU o dan system ar wahân.

Ceir ystyriaethau cynllun penodol y dylid eu hystyried wrth ddatblygu prosiect ynni adnewyddadwy. Mae awdurdodau cynllunio lleol yn datblygu Cynlluniau Datblygu Lleol gan ddefnyddio Polisi Cynllunio Cymru, y TANs a Chynllun Gofodol Cymru fel arweiniad. Mae Adran 12.8 o Nodyn Cyngor Technegol 8 (TAN 8) yn ymwneud yn benodol â'r cyd-destun cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy.

Datblygwyd TAN 8 i gynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i ddatblygu polisïau ar gyfer ynni adnewyddadwy yn eu cynlluniau datblygu lleol. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am ystyriaethau y dylid eu hystyried ar gyfer amrywiaeth o dechnolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel, fel ynni gwynt ar y tir ac ar y môr, treulio anerobig, biodanwydd, gwres ac ynni cyfunol, gwresogi rhanbarthol, ynni o wastraff, cnydau tanwydd, ynni dŵr, methan, systemau thermol solar a systemau ffotofoltäig solar. Dylai unrhyw grŵp cymunedol sydd â diddordeb mewn datblygu prosiect ynni adnewyddadwy ymgyfarwyddo ei hun â chanllawiau TAN 8 ar gyfer y dechnoleg dan sylw. Yn achos gwynt ar y tir, mae elfen ofodol i'r cyngor a bydd yr awdurdod chynllunio lleol wedi ystyried hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd Ymarfer: Goblygiadau Cynllunio Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel.

### Datblygu a ganiateir

Caniateir rhai prosiectau ynni adnewyddadwy drwy orchymyn datblygu h.y. heb fod angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio penodol. Gelwir hyn yn ddatblygiad a ganiateir. Ar gyfer adeiladau annomestig, mae hawliau datblygu a ganiateir yn bodoli ar gyfer paneli solar, pympiau gwres o'r ddaear ac o ddŵr, a ffliwiau sy'n rhan o systemau biomas a systemau gwres ac ynni cyfunol (gweler Rhagor o wybodaeth).

O ystyried y gost a'r risg sy'n gysylltiedig â chael caniatâd cynllunio, caiff llawer o gynlluniau eu datblygu er mwyn osgoi'r angen am ganiatâd cynllunio. Er enghraifft, mae nifer o gynlluniau ffotofoltäig solar annomestig yng Nghymru a Lloegr sydd islaw'r trothwy 50kW.

Mae'r rheoliadau ar ddatblygu a ganiateir yn cynnwys diffiniadau pwysig o ran ble na chaiff datblygu ei ganiatáu ym mhob dosbarth. Os bydd grwpiau cymunedol yn ystyried datblygu prosiect a fyddai'n cael ei ystyried yn ddatblygu a ganiateir yn eu barn hwy, dylent ymgynghori cyn gynted â phosibl â'u hawdurdod cynllunio lleol er mwyn sicrhau y cytunir ar hyn.  Byddai'n synhwyrol cael y cytundeb hwn yn ysgrifenedig.

Ni chynigir hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer mathau eraill o ynni adnewyddadwy annomestig (e.e. ynni gwynt, ynni dŵr), ac felly bydd angen ceisiadau cynllunio ym mhob achos.

## Rôl awdurdodau cynllunio lleol

Mae rôl awdurdodau cynllunio lleol yn cynnwys paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried beth yw'r posibilrwydd lleol ar gyfer creu ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dylai hyn gynnwys ystyried pa dechnolegau y gellid eu cynnwys, ar ba raddfa, a'r polisïau sydd eu hangen i annog y datblygiad cywir yn y llefydd cywir.

Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gynnwys polisïau sydd wedi'u cynllunio i gydbwyso buddiannau datblygiadau ynni adnewyddadwy yn erbyn yr angen i ddiogelu treftadaeth naturiol a diwylliannol, a gwerthoedd tirwedd. Byddant yn rhoi arweiniad defnyddiol ar y wybodaeth a fydd yn ofynnol gan ymgeiswyr wrth ystyried datblygiadau ynni adnewyddadwy a'r arfer gorau er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn rhoi ystyriaeth lawn i effeithiau posibl ar yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig.

Wrth ddarllen eich Cynllun Datblygu Lleol, dylech hefyd ddarllen y polisïau ar adfywio economaidd, materion cymdeithasol a'r amgylchedd. Bydd angen i chi roi eich cynllun ynni adnewyddadwy yn ei gyd-destun gyda'r polisïau hyn wrth gyfathrebu â'r awdurdod cynllunio lleol.

Mewn rhai achosion, bydd awdurdodau cynllunio lleol hefyd yn llunio dogfennau canllaw cynllunio atodol sy'n cwmpasu mathau penodol o ynni adnewyddadwy. Gall y canllaw cynllunio atodol gynnwys:

- Materion sensitif allweddol a safonau
- Dichonoldeb a chwmpas technegol
- Canllawiau ar y lleoliad
- Ystyriaethau treftadaeth naturiol ac adeiledig
- Cyngor ar brosesau a chysylltiadau â chyfundrefnau rheoleiddiol eraill.

**Mae'n bwysig bod eich cymuned yn dilyn canllawiau lleol wrth ddatblygu a chynllunio prosiect. Os na wnewch hyn, mae'n debygol iawn y bydd yn anoddach ac yn fwy costus cael cais cynllunio ac mae'n bur debyg y caiff ei wrthod.**

Dylai'r awdurdod cynllunio yn eich ardal fod yn brif bwynt cyswllt i chi ar gyfer eich holl geisiadau ac ymholiadau cynllunio. Mae'n ddefnyddiol ymgysylltu â'ch awdurdod cynllunio

lleol yn gynnar wrth ddatblygu eich prosiect a thrafod unrhyw gynigion cyn gynted â phosibl (e.e. cam asesu dichonoldeb cychwynnol).

## Cais cynllunio

### Ystyriaethau cyn gwneud cais

Cyn paratoi a chyflwyno cais cynllunio, mae nifer o gamau y dylai grŵp cymunedol eu cyflawni er mwyn gwella ei siawns o gael cais cynllunio llwyddiannus.

### *Cam 1: Nodi eich awdurdod cynllunio lleol.*

Nodwch eich awdurdod cynllunio lleol ac adolygwch y Cynllun Datblygu Lleol ac unrhyw ganllawiau penodol sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Gellir cael gwybodaeth am eich awdurdod cynllunio lleol drwy'r Porth Cynllunio (gweler Rhagor o wybodaeth). Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i adolygu cronfa ddata cynllunio'r awdurdod cynllunio lleol er mwyn nodi ceisiadau cynllunio prosiectau o natur debyg i ddatblygiad arfaethedig y grŵp cymunedol. Gall adolygu ceisiadau cynllunio o'r fath helpu i nodi ystyriaethau penodol y bydd angen eu hystyried. Os yw'r cynigion wedi cael eu gwrthod, yna darllenwch a dadansoddwch y rhesymau dros eu gwrthod. Gofynnwch am gael gweld, neu lawrlwythwch adroddiad y swyddog i'r pwyllgor mewn perthynas â cheisiadau tebyg oherwydd bydd y rhain yn rhoi rhagor o fanylion am y rhesymau y tu ôl i benderfyniadau penodol.  Bydd hyn hefyd yn datgelu p'un a gafodd argymhelliad y swyddog ei dderbyn gan yr aelodau etholedig (cynghorwyr).

### *Cam 2: Sefydlu deialog â'ch awdurdod cynllunio lleol.*

Gall sefydlu deialog gwaith cadarnhaol gyda'r awdurdod cynllunio perthnasol cyn i chi wneud cais gynyddu'r tebygolrwydd y bydd eich cais cynllunio yn llwyddiannus. Gall y deialog hwn helpu i nodi cynigion anaddas neu bryderon mawr ar gam cynnar ac arwain at geisiadau o ansawdd gwell, y gall yr awdurdod cynllunio ddelio â hwy yn gyflymach.

Bydd cyswllt cynnar gyda swyddog cynllunio lleol yn rhoi arweiniad rhag-gynllunio i'ch grŵp cymunedol, yn helpu i nodi ystyriaethau cynllunio perthnasol y dylech ganolbwyntio arnynt ac yn nodi arolygon perthnasol y mae angen eu cwblhau. Byddai'n fuddiol pe gellid cynnal cysylltiad o'r fath wyneb yn wyneb ar safle'r datblygiad arfaethedig.

- Er mwyn gwneud ymholiad, byddai'n ddefnyddiol paratoi'r wybodaeth sylfaenol ganlynol:
- Cyfeiriad (neu gyfesurynnau Cyfeirnod Grid Cenedlaethol) y datblygiad arfaethedig
- Disgrifiad ysgrifenedig o'ch cynnig
- Cynllun o'r safle ar raddfa heb fod yn llai na 1:2500 neu gynllun wedi'i nodi â mesuriadau metrig clir
- Os ydych yn bwriadu gwneud gwaith adeiladu, braslun o'r cynnig, i raddfa neu gyda mesuriadau metrig (uchder, lled, hyd, pellter o ffiniau, ac ati)
- Os ydych yn bwriadu newid defnydd tir, manylion y defnyddiau presennol ac arfaethedig.

Ffotograffau ac unrhyw wybodaeth ychwanegol arall a fydd yn helpu swyddogion cynllunio i roi'r cyngor gorau.

### *Cam 3: Ymgysylltu â'r gymuned leol.*

Mae'n bwysig nodi y bydd y grŵp cymunedol, i bob diben, yn dod yn ddatblygwr ynni a rhaid iddo gymryd cyfrifoldeb am ymgysylltu â'r gymuned. Dylai ymgysylltiad â'r gymuned ddechrau cyn gynted â phosibl yn y broses ddatblygu, yn enwedig unwaith y ceir rhywfaint o fanylion o ran maint, allbynnau a buddiannau posibl datblygiad (h.y. ar ôl cynnal astudiaeth

dichonoldeb prosiect). Ceir rhagor o wybodaeth am ymgysylltiad cymunedol yn yr adran Pecyn Cymorth **'Sefydlu Grŵp Cymunedol'.**

Mae'n hysbys y gall ymgysylltu â'r gymuned leol mewn modd ystyrlon ar gam cynnar leihau'r tebygolrwydd y caiff cais cynllunio ei wrthod. Argymhellir y dylid hysbysu cymdogion eich safle arfaethedig, o leiaf.

Os oes gennych ymgynghorydd cynllunio, gall roi rhagor o wybodaeth i chi am ymgysylltu â'r gymuned yn ystod y broses gynllunio. Mae'n bwysig, pan fyddwch yn ymgysylltu â'r gymuned, eich bod yn cyfleu gwybodaeth am eich cynllun yn glir ac yn gyson, gan gynnwys:

- Cyfleu buddiannau yn benodol ac mewn perthynas ag amcanion polisi yn y CDLl
- Gwrando ar bryderon a mynd i'r afael â hwy.

Os byddwch yn gofyn am lythyrau sy'n cefnogi eich cynllun gan aelodau o'r cyhoedd, rhaid i'r llythyrau hyn ymwneud yn benodol ag ystyriaethau cynllunio perthnasol er mwyn rhoi'r cyfle gorau i chi helpu eich cais. Er enghraifft, mae llythyr sy'n nodi bod y cynllun yn cyflwyno budd economaidd i'r ardal yn rhy amhendant, tra bod llythyr sy'n nodi *yn benodol sut* mae'r cynllun yn cyfrannu at adfywio economaidd, fel y nodir fel blaenoriaeth ym mholisi X y CDLl, yn llawer mwy tebygol o gael ei ystyried gan yr awdurdod cynllunio.

### *Cam 4: Casglu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y cais cynllunio.*

Gofynnwch i'ch awdurdod cynllunio lleol pa wybodaeth sydd angen i chi ei chynnwys yn y cais cynllunio. Bydd angen casglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y cais cynllunio, gan roi sylw penodol i agweddau a amlygir yn y pedwar cam cyntaf. Yn benodol, bydd angen ystyried unrhyw elfennau a amlygir gan y swyddog cynllunio. Gallai'r rhain gynnwys Datganiad Amgylcheddol neu effaith y datblygiad ar y dirwedd ac unrhyw effeithiau tirweddol a gweledol cronnol.

Cynhelir Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol gan yr awdurdod cynllunio lleol ond cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw rhoi gwybodaeth am effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol prosiect. Gelwir y wybodaeth hon yn Ddatganiad Amgylcheddol. Mae'r Datganiad Amgylcheddol hefyd yn nodi'r posibilrwydd o leihau, osgoi neu wrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol. Bydd yr awdurdod cynllunio yn ystyried y wybodaeth yn y Datganiad Amgylcheddol ynghyd â sylwadau a geir gan yr ymgyngoreion statudol ac anstatudol, a'r cyhoedd cyn gwneud unrhyw benderfyniadau cynllunio.

Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn cwblhau ymarfer sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol er mwyn penderfynu a oes angen cynnal asesiad ffurfiol ar gyfer y datblygiad. Bydd hwn yn ystyried meini prawf penodol a nodir gan reoliadau a chanllawiau - fel nodweddion a lleoliad y datblygiad a nodweddion yr effaith bosibl. Gall y grŵp cymunedol ofyn i'r awdurdod cynllunio lleol gynnwys opsiwn sgrinio ar yr angen i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Byddai hwn fel arfer yn cael ei gynnal wrth gwblhau'r astudiaeth dichonoldeb.

Hyd yn oes os nad oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, caiff yr effaith ar fioamrywiaeth, y dirwedd ac unrhyw effeithiau cronnol o'r datblygiad arfaethedig eu hystyried. Bydd hon yn rhan bwysig o'r broses gynllunio, yn enwedig ar gyfer datblygiadau a fydd yn fwy gweledol yn y dirwedd, fel tyrbinau gwynt. Mae hyn yn bwysig iawn mewn ardaloedd gwarchodedig neu yng nghyffiniau safleoedd gwarchodedig. Gwiriwch y cyfyngiadau neu fapiau'r cynnig yn y CDLl. Yn ogystal, darperir cyfeirlyfr ar ardaloedd gwarchodedig a ddynodwyd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban gan y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur. Caiff hwn ei gynnwys yn yr adran Rhagor o wybodaeth.

Os bwriedir i'ch cynllun gyflwyno unrhyw fudd economaidd neu gymdeithasol, mae angen cyfleu'r rhain fel rhan o'ch cais cynllunio. Ymysg y dogfennau a allai eich helpu i wneud hyn mae:

- Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu neu Reolau eich menter gymdeithasol gymunedol a chwmni datblygu at ddiben arbennig (os yw wedi'i sefydlu ar y cam hwn)
- Asesiad o effaith economaidd eich cynllun gan ddangos ei effaith ar greu swyddi, cyfleoedd i ddatblygu sgiliau/gwirfoddoli
- Unrhyw gytundebau rhwng sefydliadau partner sy'n dangos ble y bydd yr arian yn mynd
- Asesiad o effaith ar bolisi - nid oes angen i hwn fod yn hir ond dylai ddangos yn glir eich bod wedi ystyried sut mae eich cynllun yn cyfrannu at flaenoriaethau lleol fel adfywio.
- Llythyrau o gefnogaeth gan y cyhoedd yn cysylltu eich cynllun ag ystyriaethau cynllunio perthnasol fel creu swyddi, effaith ar yr amgylchedd lleol a rhoi arian ar gyfer prosiectau lleol penodol yr ystyrir eu bod yn cyfrannu at amcanion polisi.

## Cyflwyno cais cynllunio

Pan fydd y camau cyn gwneud cais wedi cael eu cwblhau, y cam nesaf fydd i'r grŵp cymunedol gyflwyno cais cynllunio i'r awdurdod cynllunio lleol. Dylai camau 1 i 5 sicrhau bod gan y grŵp cymunedol yr holl wybodaeth angenrheidiol wrth law a bod deialog eisoes wedi'i sefydlu gyda'r awdurdod cynllunio lleol.

### *Cam 5: Y broses o wneud cais cynllunio*

Mae sawl cam yn y broses gwneud cais cynllunio.

1. **Cyflwyno cais cynllunio.** Wrth gyflwyno cais cynllunio, dylai ymgeiswyr nodi canllawiau cynllunio'r awdurdod cynllunio lleol penodol ar wneud cais. Ceir gofynion statudol o ran hysbysu tirfeddianwyr a chyfrifoldeb yr ymgeisydd yw hyn.
2. **Hysbysu ac ymgynghori ag ymgyngoreion cymunedol a statudol.** Mae'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio ymgynghori â phartïon amrywiol ac fe'u hanogir i ymgynghori ag eraill. Cyfnod gofynnol yr ymgynghoriad statudol yw 21 diwrnod ond yn aml caiff ei ymestyn - yn enwedig ar achosion mwy cymhleth. Bydd y gofynion penodol o ran cyhoeddusrwydd yn dibynnu ar y cais.
3. **Penderfynu ar y cais.** Gwneir penderfyniad ar y cais cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu oni fydd ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol wyth wythnos i wneud penderfyniad ar y rhan fwyaf o geisiadau a 13 wythnos ar gyfer ceisiadau mawr. Mae'r terfyn wedi cynyddu i 16 wythnos pan fydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Os na wneir penderfyniad ar y cais o fewn y cyfnod perthnasol, yna bydd gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio ar sail diffyg penderfyniad (h.y. yn erbyn gwrthodiad tybiedig) ond fel arfer, cytunir ar amser estynedig gyda'r awdurdod cynllunio.
4. **Penderfyniad.** Fel arfer, mae swyddogion cynllunio yn gwneud penderfyniad ar ddatblygiadau llai o dan bwerau gwneud penderfyniad a ddirprwywyd. Gwneir penderfyniad ar ddatblygiadau mwy o faint a mwy dadleuol gan y pwyllgor cynllunio. Bydd y swyddog cynllunio yn ysgrifennu adroddiad ag argymhelliad ond yr aelodau etholedig fydd yn gwneud y penderfyniad.
5. **Opsiwn i apelio yn erbyn penderfyniad.** Mae gan ymgeisydd hawl i apelio i Weinidogion Cymru, drwy'r Arolygiaeth Gynllunio, os bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn ei roi yn ddarostyngedig i amodau sy'n annerbyniol iddo neu'n methu â mynd i'r afael â chais o fewn y terfyn amser statudol. Fel arfer, yr Arolygydd penodedig fydd yn gwneud y penderfyniad ar apêl er y gellir eu 'hadfer' i benderfynu arnynt gan y Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru.

## Cymorth ymgynghorol

Hyd yn oed gyda'r canllawiau a ddatblygwyd i gyflawni'r broses o baratoi a chyflwyno cais cynllunio, gall fod yn ymgymeriad mawr o hyd. Bydd cymhlethdod y broses yn amrywio, yn dibynnu ar y dechnoleg, maint y datblygiad a'r safle a ddewiswyd, gyda phrosiectau gwynt mawr er enghraifft fel arfer yn cyflwyno mwy o heriau na chynlluniau solar mawr.

Am y rheswm hwn, efallai y byddwch yn dewis cyflogi ymgynghorydd cynllunio arbenigol i'ch helpu i gael caniatâd cynllunio. Bydd hyn yn datrys unrhyw gymhlethdod os nad ydych yn gyfarwydd â'r broses gynllunio a gall fod yn gost-effeithiol wrth gymharu â'r tebygrwydd o lwyddo heb gael cyngor arbenigol.  Mae'n annhebygol iawn y bydd gan grŵp cymunedol y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol i gyflwyno Datganiad Amgylcheddol digonol.

Mae'n bwysig nodi y gall cost cael caniatâd cynllunio fod yn uchel. Mewn adroddiad gan y Pwyllgor Ynni a Newid Hinsawdd Seneddol, cyflwynodd y diwydiant gwynt dystiolaeth y gall gostio £50,000 i wneud cais cynllunio ar gyfer tyrbin gwynt 500kW (gweler Rhagor o wybodaeth; Ynni a Newid Hinsawdd - Chweched Adroddiad).

Mae'n bwysig i grŵp cymunedol fod yn ymwybodol o gost bosibl datblygiad prosiect, nid dim ond yn y cyfnod rhag-gynllunio ac yn y cyfnod cynllunio, ond yr holl ffordd i'r cyfnod datblygu. Fel arfer, bydd angen talu costau fel taliadau tyrbin fesul cam ac fel arfer bydd angen talu costau cysylltu â'r grid cyn i gyfalaf ar gyfer datblygu gael ei sicrhau gan brif fenthyciwr. Mae'r **Modiwl Cyllid** yn cwmpasu costau datblygu yn fanylach.

## Cadw cofnodion

Dylai'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â'ch gweithgareddau a gohebiaeth rhag-gynllunio, yn ogystal â'ch cais cynllunio ac unrhyw amodau, gael ei chynnwys a'i diweddaru mewn un gronfa ganolog ddiogel (naill ai'n lleol neu ar-lein). Mae'n hanfodol cael caniatâd cynllunio cyn y bydd benthycwyr yn ariannu prosiect. Mae'n bwysig dangos hynt y broses o gyflwyno eich cais cynllunio ar gamau cynnar ymgysylltu â benthyciwr. Bydd angen i'ch cofnodion ddangos y cynnydd rydych wedi'i wneud ac yn tanlinellu eich ymwybyddiaeth o'r camau y mae angen i chi eu cymryd. Dylai hyn fod yn ddigonol i gychwyn trafodaethau â benthycwyr.

## Rhagor o wybodaeth

- Er mwyn sefydlu pwy yw eich awdurdod cynllunio lleol, ac i weld gwybodaeth ar yr awdurdod cynllunio hwnnw, dilynwch y ddolen ganlynol: http://www.planningportal.gov.uk/wps/portal/genpub_LocalInformation
- Ar gyfer y sawl sydd â diddordeb yn y polisi cynllunio defnydd tir cyffredinol ar gyfer Cymru, ceir rhagor o wybodaeth ar **Bolisi Cynllunio Cymru** yn: http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy
- Mae nifer o **Nodiadau Cyngor Technegol** (TANs) (http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy) sy'n cefnogi Polisi Cynllunio Cymru. Mae **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8** ar **ynni adnewyddadwy** (a gyhoeddwyd yn 2005) (http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan8/?skip=1&lang=cy) yn berthnasol i'r sawl sy'n ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy.
- Ar gyfer y sawl sydd â diddordeb yn y canllawiau sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer ynni adnewyddadwy: **Cyfarwyddyd Ymarfer - Goblygiadau Cynllunio Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel** yn http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/planningimplications/?skip=1&lang=cy
- Ar gyfer y sawl sydd â diddordeb yn fframwaith strategol Cymru sy'n llywio datblygiadau ac ymyriadau polisi ar gyfer y dyfodol, gellir cael rhagor o wybodaeth am **Gynllun Gofodol Cymru - Pobl, Llefydd, Dyfodol** yn: http://gov.wales/docs/desh/publications/130701wales-spatial-plan-2008-update-en.pdf.
- **Ynni Cymru: Newid i economi carbon isel** (http://gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/energywales/?skip=1&lang=cy). Mae'r ddogfen hon yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud er mwyn ysgogi'r newid i economi gynaliadwy, carbon isel i Gymru. Mae hyn yn rhoi trosolwg o'r cynlluniau ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru, a all roi gwybodaeth ddefnyddiol i'r sawl sydd â diddordeb ar y cyd-destun ehangach.

Ymysg y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â'r cyd-destun cynllunio yng Nghymru mae:

- **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990** (http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/8/contents) sy'n nodi rôl awdurdodau cynllunio lleol. Disgwylir i'r rhan fwyaf o ddatblygiadau cymunedol gael eu cynnwys o fewn y categori datblygu lleol ac felly awdurdodau cynllunio lleol fydd yn delio â hwy a byddant yn ddarostyngedig i bolisïau cynlluniau datblygu lleol.
- **Deddf Cynllunio 2008**, sy'n nodi manylion ar gyfer gweinyddu ceisiadau ar gyfer prosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol. Byddai hyn ond yn cynnwys prosiectau uwchlaw 50MW ac nid ydynt yn debygol o fod yn berthnasol i ddatblygiadau cymunedol (http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/29/contents).
- Caiff **hawliau datblygu a ganiateir** ar gyfer microgynhyrchu annomestig eu cynnwys o dan Orchymyn Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2012 (http://gov.wales/topics/planning/policy/dear-cpo-letters/nondomcpoletter/?skip=1&lang=cy
- http://www.legislation.gov.uk/uksi/2012/749/pdfs/uksi_20120749_en.pdf).

Ymysg y wybodaeth ddefnyddiol arall sy'n ymwneud â chynllunio mae:

- Ceir cwestiynau cyffredin ar wneud ceisiadau cynllunio yng Nghymru ar wefan Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/topics/planning/faqs/makingplanningapps/?skip=1&lang=cy
- Ceir rhagor o wybodaeth am y rheoliadau sy'n ymwneud ag Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (**Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol**) 2011 (http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2011/1824/schedule/1/made).

  Caiff y rheoliadau hyn eu rhannu yn dair atodlen:
  - **Atodlen 1:** '*Descriptions of development for the purposes of the definition of "Schedule 1 development".*' Bydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.
  - **Atodlen 2:** '*Descriptions of development and applicable thresholds and criteria for the purposes of the definition of "Schedule 2 development".*' Dim ond os caiff trothwyon a meini prawf cymwys eu bodloni y bydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.
  - **Atodlen 3:** '*Selection criteria for screening Schedule 2 development.*' Mae'r atodlen hon yn nodi'r meini prawf y dylai awdurdod cynllunio lleol eu hystyried wrth gynnal ymarfer sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Mae'n ddefnyddiol i grŵp cymunedol fod yn ymwybodol o'r meini prawf hyn a, lle y bo'n berthnasol, ystyried y rhain yn eu gweithgarwch cyn gwneud cais.
- Mae cyfeiriadur y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur o'r **ardaloedd gwarchodedig a ddynodwyd** ar gael yn http://jncc.defra.gov.uk/page-1527. Dylid defnyddio hyn i benderfynu a yw eich safle o fewn ardal arfaethedig neu wrth ymyl ardal o'r fath.
- Ceir enghreifftiau o ddogfennau **Canllaw Cynllunio Atodol** isod. Dylai grwpiau cymunedol sicrhau bod gan eu hawdurdod cynllunio lleol Ganllawiau Cynllunio Ategol sy'n ymwneud yn benodol ag ynni adnewyddadwy:
  - Canllaw Cynllunio Atodol: Galluogi Datblygu Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru (http://www.eryri-npa.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0011/491294/5896_SD_JointSPG_20140519_V2_0-FinalCymraeg.pdf)
  - Canllaw Cynllunio Atodol Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Default.asp?pid=183&LangID=2)
  - Cumbria Wind Energy Supplementary Planning Document (SPD) (http://www.cumbria.gov.uk/planning-environment/renewable-energy/windEnergy.asp)
- Ceir gwybodaeth am rwystrau a all wynebu prosiectau ynni lleol, yn cynnwys adran ar gael caniatâd cynllunio yn yr **Energy and Climate Change - Sixth Report** (yn benodol yn adran 4: '*Overcoming barriers to local energy projects – planning*') (www.publications.parliament.uk/pa/cm201314/cmselect/cmenergy/180/18007.htm)
- Gwybodaeth ar yr hyn y dylid ei ystyried wrth osod technoleg ynni adnewyddadwy **Cynhyrchu eich Ynni Adnewyddadwy Eich Hunan: Arweiniad Cynllunio -** http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/generaterenewable/?skip=1&lang=cy

Comisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yng Nghymru

Lluniwyd gan Ricardo-AEA Ltd gan adeiladu ar waith a gwblhawyd ar gyfer Cynllun Ynni Adnewyddadwy a Chymunedol Llywodraeth yr Alban

© Argraffydd y Frenhines ar gyfer yr Alban 2009, 2010, 2011, 2012

*Diweddarwyd y ddogfen hon ddiwethaf ym mis Mawrth 2015*